

Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnig Ad-Drefnu Ysgolion

Adroddiad Ymgynghori

Cynnig i sefydlu Uned Adnoddau Dysgu yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion

**Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:
5 Medi 2018 – 16 Hydref 2018**

Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth yr Ysgol, Gorffennaf 2013.

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Fersiwn Crynodeb Bob Dydd – Plant a Phobl Ifanc
- Llais y Dysgwr
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad
- Estyn
- Argymhellion

Y Cynnig

Sefydlu Uned Adnoddau Dysgu generig 10 lle ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2019.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Gwahoddwyd y rhanddeiliaid a amlinellir isod i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, naill ai drwy ddilyn dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor a chael pecyn electronig dros e-bost, neu fel arall, drwy gael copi caled o ddeunyddiau'r ymgynghoriad:

- Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol o fewn clwstwr Ysgolion Cyfun Caerllion: Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac Ysgol Gynradd Langstone;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion hynny yng Nghasnewydd sydd ar hyn o bryd yn cynnal darpariaeth Uned Adnoddau Dysgu: Ysgolion Cynradd Alway, Crindau, Gaer, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgolion Cynradd Llanmartin, Llys Malpas, Monnow, Pillgwenlli, Ringland, Tŷ-Du, Sant Andreas, Ysgol John Frost ac Ysgol St Julian;
- Pob aelod etholedig ar Gyngor Dinas Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a weinyddir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- Awdurdodau Lleol eraill ar draws rhanbarth Consortiwm De-Ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-Ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;
- Archesgobaeth Catholig;
- Estyn;
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Trefnwyd y digwyddiadau ymgynghori canlynol a'u cyhoeddi mewn llythyr at y rhanddeiliaid a thrwy ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Rhannwyd y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor hefyd:

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Math o Ddigwyddiad
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion (yr adeilad lau blaenorol), Lodge Hill, Caerllion, NP18 3BY	Dydd Mawrth 11 Medi 2018 3.45pm – 5.45pm	Digwyddiad galw heibio
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion (yr adeilad lau blaenorol), Lodge Hill, Caerllion, NP18 3BY	Dydd Iau 27 Medi 2018 3.45pm – 5.45pm	Digwyddiad galw heibio

Daeth pum person i'r sesiwn galw heibio gyntaf, ac roedd pedwar ohonynt yn rhieni i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pumed yn aelod o staff a gyflogwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Cafodd y sesiwn ei chefnogi gan y Rheolwr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Swyddog AAA a Chynhwysiant, a Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg. Cafodd yr ail sesiwn ei chefnogi gan yr un cynrychiolwyr AAA hefyd, ynghyd â Rheolwr y Gwasanaeth Addysg (Cynllunio ac Adnoddau). Roedd y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn bresennol hefyd. Daeth dau riant i'r sesiwn hon. Roedd un ohonynt wedi dod i'r sesiwn galw heibio gyntaf hefyd. Holwyd y cwestiynau canlynol yn y ddwy sesiwn:

Derbyniadau

Sut mae plentyn yn cael lle yn yr Uned Adnoddau Dysgu?

Ni fydd modd i ddisgyblion wneud cais am le yn yr Uned Adnoddau Dysgu trwy drefniadau derbyn arferol y Cyngor. Yn lle hynny, derbynnir disgyblion i'r uned ar sail anghenion unigol yn sgil asesiad gan y Tîm Cynhwysiant Addysg. Bydd gan bob disgybl sy'n mynychu'r uned ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd y Cyngor yn pennu derbyniadau gan roi ystyriaeth i ddewis rhieni ac ymgynghori â'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu o ran pa mor briodol yw'r lleoliad. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau hyn o dan y cynnig hwn.

A fydd y disgybl hwn yn cymryd lle disgybl arall sydd ar restr aros yr ysgol?

Na. Ni fydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn cael unrhyw effaith ar nifer derbyn gyhoeddedig yr ysgol.

A fydd modd i blentyn gael lle ym mhrif ffrwd yr ysgol ar ôl bod yn yr Uned Adnoddau Dysgu?

Bydd disgyblion sy'n mynychu lleoliadau Uned Adnoddau Dysgu yn cael cyfle i fod yn rhan o ddosbarthiadau'r brif ffrwd. Bydd hyn yn digwydd ar gyfer unrhyw bynciau posibl. Nod pob disgybl yn yr Unedau Adnoddau Dysgu fydd gallu dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd yn llawn amser ar ôl cyfnod o ymyrraeth yn yr unedau. Os bydd disgybl yr Uned yn cael ei ystyried yn addas i ddychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd, bydd disgwyl i'r disgybl hwnnw ddychwelyd i'w ysgol wreiddiol. Fodd bynnag, os bydd rhiant/gofalwr yn penderfynu gwneud cais am barhau â'r lleoliad mewn ysgol arall, bydd yn cael ei brosesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

A fydd modd i ddisgyblion â datganiad o'r brif ffrwd ddefnyddio'r Uned Adnoddau Dysgu?

Ni fydd modd i ddisgyblion prif ffrwd ddefnyddio'r Uned oni bai bod Panel AAA yr Awdurdod Lleol yn cytuno i hynny.

Pa mor gyflym fydd dosbarth yr Uned Adnoddau Dysgu yn llenwi?

Bydd lleoliadau yn yr Uned yn cael eu neilltuo yn ôl y galw.

Ai'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr Uned yn unig fydd yn cael eu derbyn?

Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, bydd yr Uned hon yn gwasanaethu disgyblion sy'n byw yng nghlwystr Caerllion yn bennaf er y bydd lleoliadau ar gael i ddisgyblion yn ardaloedd ehangach Casnewydd os bydd eu hangen.

Staffio

A fydd yr arian ychwanegol y mae'r ysgol yn ei dderbyn yn ddigon i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r Uned?

Caiff swm o £64,000 ei ddynodi i gyllidebau ysgolion sy'n lletya er mwyn talu'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Uned Adnoddau Dysgu 10 lle. Hefyd, bydd yr ysgol yn derbyn y costau Uned Disgybl wedi'i Bwysoli o Ran Oedran (AWPU) ar gyfer pob disgybl a gaiff lle yn yr uned. Mae'r cyllid AWPU hwn yn seiliedig ar oedran y disgybl. Bydd yr arian a ddynodir yn ddigon i dalu'r gost o weithredu'r Uned.

Faint o athrawon a chynorthwyr addysgu fydd yn y dosbarth?

Mae'n arferol i Uned â lle i 10 disgybl gael ei chefnogi gan un Athro a dau Gynorthwy-ydd Addysgu.

Sut ymdrinnir â salwch staff, cyfnodau CPA ac egwyl?

Ymdrinnir ag unrhyw gyfnodau o salwch staff yn yr Uned yn unol â phrosesau a threfniadau'r ysgol y cytunwyd iddynt. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio staff presennol yn hyblyg neu staff asiantaeth yn ôl yr angen. Caiff cyflenwi cyfnodau CPA ac egwyl ei drefnu gan y Pennaeth a bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys yr Uned.

A fydd pob aelod o staff yn yr ysgol yn cael hyfforddiant ychwanegol i gefnogi anghenion y disgyblion hyn?

Bydd modd i staff yr Uned a'r ysgol ehangach gyrchu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ac ymgynghori i gefnogi disgyblion yr Uned, megis:

- Gwahoddiad i fynd i hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod Lleol, a allai gynnwys rhannu gwybodaeth yn gyffredinol, y prosesau a'r gweithdrefnau diweddaraf, a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ymyriadau penodol;
- Cynhadledd flynyddol yr Awdurdod Lleol ynglŷn ag ADY;
- Diwrnod Hyfforddiant blynyddol i bob aelod o staff yr Uned, wedi'i drefnu gan yr ALI;
- Cymorthfeydd ADY bob tymor sy'n cael eu trefnu gan Dîm Cyfoethogi Cynhwysiant yr ALI;
- Diwrnodau agored achlysurol â siaradwyr gwadd;
- Mynychu sesiynau 'byr' bob mis a fydd yn rhoi blas ar hyfforddiant newydd ac yn atgyfnerthu hyfforddiant blaenorol, a
- Derbynnir ceisiadau penodol drwy gyfarfodydd Rhwydwaith y Clwstr.

A fydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn effeithio ar faint o amser bydd yr Uwch Dîm Arwain yn ei dreulio ar weddill yr ysgol? A yw hyn yn cael ei ystyried yn y gyllideb?

Bydd yr Uned yn rhan o'r ysgol gyfan. Bydd unrhyw amser a dreulir yn cefnogi'r Uned yn cael ei ystyried yn rhan o swyddogaethau a chyfrifoldebau cyffredinol yr Uwch Dîm Arwain.

Trefniadaeth yr Ysgol

Sut fydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn cael ei threfnu o ystyried y bydd modd iddi gymryd disgyblion o oeddrannau amrywiol?

Bydd yr Uned yn cael ei gweithredu mewn un ystafell ddosbarth gyffredinol, gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r ystafell amlwrpas gyfagos. Yr athro fydd yn cynllunio trefn y dosbarth, gan ystyried y disgyblion a'u hanghenion unigol. Bydd y gwaith yn cael ei wahaniaethu i ateb anghenion disgyblion yn unigol ac anghenion y cwricwlwm perthnasol.

A fydd disgyblion yr Uned Adnoddau Dysgu yn cael eu hegwyll ar yr un adeg â gweddill yr ysgol?

Bydd disgyblion yr Uned yn gweithredu yn ôl yr un amseroedd â gweddill yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu arferion cynhwysol yr Unedau ledled Casnewydd. Fodd bynnag, gallai disgyblion sy'n defnyddio'r Uned gael cyfle i ddefnyddio'r ffreutur yn gynharach na'u cyd-ddisgyblion yn y brif ffrwd os, er enghraifft, bydd ganddynt namau synhwyrol penodol ac yn sensitif i lefelau uchel o sain.

A fydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn effeithio ar yswiriant yr ysgol?

Edrychir ar yswiriant adeiladau'r ysgol wrth baratoi i symud i'r adeilad newydd. Nid oes unrhyw breimiwm ychwanegol yn gysylltiedig â chynnal Uned Adnoddau Dysgu.

Pwy fydd yn talu am unrhyw ddifrod?

Bydd unrhyw ddifrod yn cael ei reoli gan y Corff Llywodraethu, sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad ac am ystyried camau gweithredu, ynghyd â'r Pennaeth.

Canolfan y Dosbarth

Pa ddiogelwch sydd ar ddrws yr ystafell ddosbarth?

Bydd y drws mewnol i'r ystafell ddosbarth yn cael ei reoli gan ffob diogelwch. Bydd dau glo troi â bawd yn cael eu gosod ar y drws allanol, a bydd un ohonynt yn cael ei osod yn uchel i fyny'r drws. Bydd un llwyrglo ar y drws yn unol â'r safonau presennol er diogelwch ychwanegol.

I ba raddau fydd yr ystafell ddosbarth yn wrth-sain?

Mae mesurau gwrth-sain wedi cael eu cynnwys yn rhan o gynllun adeilad yr ysgol yn unol â gofynion rheoliadau adeiladu.

A oes ffens o amgylch yr ardal dan do y tu allan?

Oes. Mae'r ardal hon o fewn ffiniau'r ysgol i sicrhau na all disgyblion adael y safle heb ganiatâd. Bydd rhywfaint o ffensys ychwanegol hefyd i roi amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion yn yr awyr agored.

Anghenion Ychwanegol

A fydd modd i ddisgyblion yr Uned Adnoddau Dysgu ddefnyddio gwasanaethau therapiwtig?

Bydd defnydd o unrhyw wasanaethau therapiwtig yn dibynnu ar anghenion unigol pob disgybl a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ateb yr anghenion hynny.

Fersiwn Crynodeb Bob Dydd – Plant a Phobl Ifanc

Cafodd Fersiwn Crynodeb Bob Dydd o brif ddogfen yr ymgynghoriad ei chyhoeddi hefyd ac roedd wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc yn benodol.

Llais y Dysgwr

Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn y dysgwyr, ac i'r perwyl hwn, trefnwyd cyfarfod penodol rhwng y Cyngor Ysgol a dau aelod o staff y Gwasanaeth Addysg ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Lodge Hill, Caerllion. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r disgyblion a gymerodd ran yn y sesiwn hon, a hoffai'r Cyngor ddiolch iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr i'r broses hon.

Daeth deuddeg disgybl i'r cyfarfod ac roedd pob un ohonynt yn cytuno y bydd cyflwyno dosbarth Uned Adnoddau Dysgu i'r ysgol yn syniad da, gan y byddai'n helpu plant ag anghenion dysgu ychwanegol i deimlo'n rhan o'r ysgol gyfan. Gofynnwyd y cwestiynau penodol canlynol hefyd gan y rhai oedd yn bresennol:

Cwestiwn	Ateb
A fydd ystafell ddosbarth yr Uned Adnoddau Dysgu yn wrthsain? Os bydd y disgyblion yn swnllyd, gall effeithio ar ddysgwyr eraill.	Bydd pob ystafell ddosbarth yn yr adeilad newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â safonau modern, a byddant dipyn yn fwy gwrthsain nag ystafelloedd mewn adeiladau ysgol presennol.
A fydd disgyblion yn yr Uned Adnoddau Dysgu yn rhannu'r un maes chwarae ac amseroedd egwyl â disgyblion eraill?	Bydd gan yr Uned ardal fach ddiogel bwrpasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r disgyblion fydd yn mynychu'r uned yn mwynhau bod mewn ardaloedd prysur neu swnllyd, felly ni fyddai'r brif iard chwarae'n addas iddynt ar yr un adeg â gweddill disgyblion yr ysgol. Fodd bynnag, byddant yn ymuno â gweddill yr ysgol os byddant yn gallu. Yr athro a'r disgyblion fydd yn penderfynu hyn.
Beth fydd oedran y disgyblion yn y dosbarth newydd?	Gall yr Uned gynnwys hyd at 10 plentyn rhwng 4 ac 11 oed.
Faint o athrawon fydd yn y dosbarth newydd?	Bydd un athro a dau gynorthwy-ydd addysgu yn y dosbarth newydd.
A fydd modd i ni ddefnyddio'r Uned?	Bydd yr Uned yn cael ei chynllunio fel pob dosbarth arall yr ysgol, ac felly ni fydd unrhyw gyfleusterau arbennig y bydd angen i ddisgyblion eraill eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd cyfleusterau'n cael eu rhannu o amgylch yr ysgol y gall pawb eu defnyddio.
Pam rydych wedi dewis rhoi'r Uned yn yr ysgol hon?	Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob adeilad ysgol newydd yn cynnwys dosbarth Uned Adnoddau Dysgu, fel y gall disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol fynychu ysgol leol.
A fydd y plant yn gwneud yr un gwaith â disgyblion eraill yr ysgol?	Mae'n bosibl y bydd y plant yn yr Uned yn methu gwneud yr un gwaith â'r disgyblion yn y dosbarthiadau eraill, ond bydd y gwaith yn addas ar eu cyfer.

A fydd gan athro'r Uned brofiad arbennig?	Bydd y corff llywodraethu am sicrhau ei fod yn dewis yr unigolyn gorau posibl i ddysgu'r dosbarth hwn. Gallai'r unigolyn hwn fod â phrofiad o ddysgu mewn Uned Adnoddau Dysgu arall, neu o weithio gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol.
Beth fydd yn digwydd os bydd un o'r plant yn hynod o drafferthus?	Bydd yr athro yn delio â'r ymddygiad yn yr un modd ag y byddai eich athrawon chi'n ei wneud yn eich dosbarthiadau ar hyn o bryd.
Pryd bydd y disgyblion yn dechrau dod i'r ysgol?	Bydd disgwyl i'r Uned agor ym mis Ebrill 2019 (ar ôl gwyliau'r Pasg) a bydd disgyblion yn dechrau mynychu'r dosbarth yn fuan wedi hynny.
A all y plant symud o'r Uned i ddosbarthiadau eraill yn yr ysgol os ydynt yn gwneud yn dda?	Efallai, ond y Pennaeth a'r Cyngor fydd yn penderfynu hynny ar y cyd.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daeth tri ymateb swyddogol i law yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd dau ymatebydd yn cefnogi'r cynnig, ac un yn ei wrthod ar y sail y gallai'r Uned darfu ar ei phlant a'r ysgol.

Amlinellodd yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig y byddai'r Uned Adnoddau Dysgu yn fanteisiol iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r safbwynt hwn ac yn ymrwymedig i ddarparu cyfleusterau o'r fath ym mhob adeilad ysgol newydd sbon gan ei fod yn cefnogi dull mwy cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awydd hefyd i fod mewn sefyllfa lle y bydd o leiaf un Uned Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac ychwaith yng nghlwstwr St Julian sydd gerllaw.

O ran yr ymateb yn gwrthwynebu'r cynnig, mae'r Cyngor wedi bod yn glir na fydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn ddarpariaeth i ddisgyblion â phroblemau ymddygiadol. Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar ddarpariaeth addysg y brif ffrwd yn Ysgol Gynradd Lodge Hill, Caerllion. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd yr ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach yn elwa yn yr hirdymor.

Estyn

Roedd ymateb swyddogol Estyn yn dod i'r casgliad bod y cynnig "yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, a chynnal neu wella'r ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol."

Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi amlinellu sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac yn nodi'r manteision a'r anfanteision disgwylidig yn glir ac yn deg o gymharu â'r sefyllfa bresennol, ynghyd â rhai risgiau. Fodd bynnag, er bod dewisiadau eraill wedi cael eu hamlinellu, nid ydynt yn ymddangos eu bod wedi'u hystyried yn ddigon da, yn enwedig y posibilrwydd o leoli'r Uned Adnoddau Dysgu mewn unrhyw fan heblaw Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion.

Ymateb yr ALI: Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiwallu'r angen cynyddol am ddarpariaeth arbenigol ledled dinas Casnewydd, ac i'r perwyl hwn, hoffai sefydlu Uned Adnoddau Dysgu ym mhob adeilad ysgol newydd. Cyflwynodd y project, a ariannwyd gan raglen Ysgolion yr

21^{ain} Ganrif, i ail-godi Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion, gyfle i greu darpariaeth arbenigol mewn clwstwr nad oedd fel arall yn elwa ar Uned Adnoddau Dysgu.

Yna, mae'r ymateb yn cyfeirio at yr angen am eglurder o ran trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Ymateb yr ALI: Mae Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol y Cyngor ar gyfer disgyblion y brif ffrwd yn seiliedig ar feini prawf o ysgol y dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Os bydd Panel AAA y Cyngor yn penderfynu y gellir bodloni anghenion penodol y plentyn yn well mewn lleoliad Uned Adnoddau Dysgu, bydd trefniadau cludiant yn cael eu hystyried. Mewn achosion penodol, gall y Panel AAA benderfynu y dylid hwyluso Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol naill ai dros dro neu'n barhaol, a bydd y panel yn rhoi gwybod i'r rhieni / gofalwyr.

Mewn perthynas ag agweddau addysgol ar y cynnig, nododd Estyn fod cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion wedi cael eu nodi hyd at ddiwedd blwyddyn academiaidd 2016-2017 yn unig, ac nid yw'n gwneud sylw ar ansawdd yr arweinyddiaeth na'r rheoli yn yr ysgol.

Ymateb yr ALI: Y data hwn oedd y wybodaeth fwyaf cyfredol oedd ar gael ar adeg paratoi'r ddogfen ymgynghori yn nhymor yr haf 2018. Ceir gwybodaeth bellach fel a ganlyn:

- Roedd canran 3 blynedd cyfartalog prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion yn 14.5% yn 2018, sy'n rhoi'r ysgol yn y grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim 8-16% ar gyfer cymharu cyflawniad.
- Roedd y gyfradd bresenoldeb yn 95.9% yn 2018, sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 94.6%.

O ran arweinyddiaeth a rheoli, mae adroddiad categoreiddio mwyaf diweddar yr ysgol wedi cadarnhau bod y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain yn rhoi arweinyddiaeth gadarn ac yn rhannu'r weledigaeth sy'n dylanwadu ar arferion ledled yr ysgol. Mae cofnod o wella cyrhaeddiad disgyblion wedi cael ei gynnal dros amser, ac mae disgwyliadau'r Pennaeth yn glir o ran cyrhaeddiad yn y dyfodol. Mae'r corff llywodraethu'n effeithiol iawn wrth gynnal cyfrif yr ysgol, ac mae systemau rheoli perfformiad sydd wedi'u hen sefydlu yn sicrhau bod aelodau staff yn atebol am gynnydd a llesiant disgyblion.

Hefyd, nododd Estyn nad oedd y cynnig yn ystyried yr effaith bosibl ar gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Ymateb yr ALI: Barn yr ALI yw y bydd y cynnig yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy ehangu'r ddarpariaeth i ddysgwyr sy'n mynychu'r Uned Adnoddau Dysgu. Bydd y dysgwyr hyn yn elwa ar amgylchedd dysgu mwy priodol. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar ddysgwyr yn y brif ffrwd.

Mae'r ymateb yn dod i ben gan nodi nad yw'r awdurdod lleol yn nodi'n benodol sut fydd yn lleihau'r tarfu ar ddysgwyr, er enghraifft y disgyblion hynny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig fydd yn symud i'r uned adnoddau hon. Fodd bynnag, nid yw'n dangos ei fod yn bwriadu 'rhoi digon o amser i'r corff llywodraethu benodi staff dysgu a chymorth priodol a sicrhau hefyd y gellir hwyluso'r broses o bontio disgyblion yn effeithiol'.

Ymateb yr ALI: Bydd y Panel AAA yn pennu lleoliadau yn yr Uned Adnoddau Dysgu yn dilyn ymgynghori â rheini / gofalwyr a'r darpariaethau presennol i bennu a yw'r lleoliad a gynigir yn addas. Bydd cyfnod pontio yn cael ei drefnu i darfu cyn lleied â phosibl ar y dysgwr.

Argymhellion

Argymhellir y dylid ceisio caniatâd i symud y cynnig hwn yn ei flaen drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gyfeirio at Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd ac yn mynd drwy broses ddemocrataidd y Cyngor a gytunwyd.

Yn unol â'r Cod Trefnu Ysgolion (2013) cyhoeddir yr adroddiad hwn yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd www.newport.gov.uk/schoolreorganisation

I ofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwrch school.reorg@newport.gov.uk